Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 25ain o Fawrth 2009 am 7.30yh.

Presennol: Y Dirprwy Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Ieuan Gwyn, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Julia Jones

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Dywedodd PC Vernon Thomas y cofnodwyd dau drosedd yn ystod y mis. Roedd un yn achos o beidio â thalu am dacsi a logwyd, a'r llall yn achos o ymyrryd yn dwyllodrus â pheiriant arian y banc. Dywedodd Cwnstabl Thomas y dylai pawb sy'n defnyddio peiriannau arian sicrhau nad oes unrhyw beth wedi cael ei slotio i mewn i'r pwynt derbyn cerdyn. Mae ymchwiliadau'n parhau i'r ddau achos. Cafwyd tri achos ble y cymerwyd alcohol oddi wrth bobl ifanc ym Mharc Penlan.

Cof 292 / Maw /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod CSG yn cynnig cymorth ariannol i 'Festival Music' a 'Festival of the Senses' yn y flwyddyn nesaf. Ar gais y CS Jones, cynigodd y Cyng. Roy Davies y dylid gofyn i'r wasg i adael tra bod materion o natur sensitif yn cael eu trafod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Cynghorydd Sir na ddaethpwyd i gytundeb mewn perthynas ag ad-drefnu'r ysgolion uwchradd yn ardal Dinefwr. Byddai rhieni'r ysgolion bwydo yn cael eu hymgynghori nesaf, ond oni bai fod penderfyniad yn cael ei wneud cyn mis Mehefin, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan LlCC.

Cof 293 / Maw/ 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 25ain o Chwefror 2008, yn gofnod cywir, wedi ychwanegu enw'r Cyng. Dawn Wallace, am ei bod yn bresennol yn y cyfarfod. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 11eg o Fawrth 2008, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 11eg o Fawrth 2009, yn gofnod cywir ac

argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd hyn gan y Cyng. Christopher Parish ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 294 / Maw / 09 Doedd dim materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Cof 295/ Maw / 09 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1 Mrs Needham yn galw am ganiatâd i gerdded cŵn ym Mharc Penlan a bod perchenogion anghyfrifol yn derbyn dirwy.
2 Paul Morris, Swyddog yr Amgylchedd CSG, yn adrodd nad oes unrhyw dystiolaeth o faeddu ym Mharc Penlan.
3 Manylion am gystadleuaeth Pentref y Flwyddyn Calor Gas. Byddai'r Cyng. Ros Bellamy a'r Cyng. Fran Murphy yn astudio ac yn adrodd nôl i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.
4 Adroddiad swyddog CSG Phil Williams. Byddai'r Swyddog Cyllid yn ei ddarllen ac yna byddai'n adrodd nôl i'r Cyngor.
5 Rhybudd CSG o fwriad Prydain i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn cyfranogi yn y dathliadau ar yr 22ain o Fehefin. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
6 Mrs J. Griffiths, Prifathrawes Ysgol Tregib yn gofyn am gymorth ariannol i ddau fyfyriwr sy'n mynychu cwrs NASA yn yr Amerig.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod £50 yr un yn cael eu rhoi i'r bechgyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy ddiwygiad bod £100 yr un yn cael eu rhoi i'r bechgyn. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Cariwyd y diwygiad gan 6 phleidlais i 2.

Cof 296 / Maw / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. CGGSG yn ein hysbysu am eu cyfeiriad newydd a'r CCB. Nodwyd.
2. TUC Llanelli. Nodwyd.
3. Comisiwn Ffiniau LlCC. Nodwyd.
4. Phil Grafton. Llythyr o ddiolch am y cyfarfod ar y Côd Ymddygiad.

Cof 297 / Maw /09 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

CGGC (Cyflogres Mawrth 2009)	£ 255.85
CGGC (Gwein Mawrth 2009)	£ 34.79
CSG (Goleuadau llwybrau troed 1.12.8-31.3.09)	£ 286.16
BT (ffôn y swyddfa)	£ 61.29
Treuliau'r Clerc (inc i'r peiriant argraffu)	£ 21.52
Cyng. Chris Parish (treuliau teithio i gynhadledd)	£ 44.76
Menter Bro Dinefwr (cyfieithwyr Trywydd)	£ 446.76

Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

2. Materion ariannol eraill.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy y dylid gofyn i Mr Lyn Llewellyn i ymddwyn fel Archwilydd Mewnol ar gyfer trefn archwilio'r flwyddyn hon. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 298 / Maw / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Derbyniwyd dyfynbrisiau oddi wrth ddau gontractwr, i gyflawni rhaglen cynnal a chadw llwybrau troed 2009-10. Fe'u hagorwyd yn y cyfarfod ac fe'u cofnodwyd fel a ganlyn:-

Mr Hugh Gwynne	£ 1080.00
Mr Jonathan Field	£ 1080.00

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y contract yn cael ei gynnig i Mr Hugh Gwynne, oherwydd bod y Cyngor yn hapus gyda'r gwaith cynnal a chadw a wnaeth yn 2008-9. Eiliodd y Cyng. Dawn Wallace y cynnig. Roedd pawb o blaid.

Cyflwynodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr ar y materion canlynol

i) Hawliau tramwy. Roedd y giât i'r llwybr troed ger Tafarn y White Hart ar goll. Roedd CSG wedi cael eu hysbysu.

ii) Dywedodd Mr Davies bod angen ffonau clust a microffon ar gyfer yr arddangosfa Dân Gwyllt a digwyddiadau cyhoeddus eraill, ac mai'r fargen orau ar gael yn siop Maplin's. Roedd angen agor cyfrif er mwyn prynu'r offer. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy y dylid agor cyfrif. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Maplin's. Roedd pawb o blaid.

iii) Portico Neuadd y Sir. Fe wnaeth Mr Moses, contractwr adeiladu, ymchwilio i achos y dŵr treiddiol. Byddai Mr Davies yn paratoi rhaglen waith. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod Mr Davies yn caffael dyfynbrisiau am y gwaith.

Oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid, cytunwyd y gellir cwblhau'r gwaith llythrennu ar gyfer y Portico cyn gynted ag sy'n bosib.

Cof 299 / Maw / 09 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd

1. Derbyniodd y Clerc hysbysiad oddi wrth CSG fod y car a adawyd ar Heol Latimer wedi cael ei symud.
2. Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins bod yr arwydd tu allan i archfarchnad CK's wedi cael ei osod mewn lle sy'n rhwystro gyrwyr sy'n dod allan o Heol Cilgant rhag gweld unwaith eto. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r TRA.

Cof 300 / Maw / 09 Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd yn Ninefwr

Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y mater yn cael ei ohirio nes cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Ebrill. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 301/ Maw / 09 Adroddiad y Maer.

Anfonodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad am yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Byddai'r Cyngor yn cynnal Derbyniad Dinesig yn Eglwys Sant Teilo, am hanner dydd ar Ddydd Llun y 13^{eg} o Ebrill. Roedd croeso i bawb i fynychu.

Cof 302 / Maw / 09 Adroddiadau Eraill

i) Cyfarfod gyda Swyddog Blaen Gynllunio CSG.
Adroddodd y Cyng. Roy Davies am y cyfarfod a gynhaliwyd rhyngddo ef, y Cyng. Colin Jenkins a Mr Jon Timothy. Byddai unrhyw helaethiad pellach o'r Dref yn gymesur â'i phoblogaeth. Dywedodd Mr Timothy fod yna gyfyngiad daearyddol ar helaethu. Gyda golwg ar ddatblygiad Pencrug, byddai'n dod o dan ddarpariaethau'r CDLl presennol nes i'r CDLl newydd ddod i rym yn 2012.

Byddai'r Cyng. Davies yn bwrw ymlaen gyda'r prosiect llwybrau troed.
Byddai'r Maer yn cwrdd gydag Anne Hobbs o Tywi Afon yr Oesoedd ar y 9fed o Ebrill, mewn perthynas â materion o ddiddordeb cyffredin.

ii) Cyfarfod Un Llais Cymru.
Adroddodd y Cyng. Christopher Parish am gyfarfod diweddar Ardal Caerfyrddin. Dywedodd y dylai'r Cyngor gadw golwg agos ar werthu lleiniau o dir i'w ddatblygu.

ii) Is-grŵp Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan.
Rhoddodd y Dirprwy Faeres adroddiad am y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd gyda Mr Huw Parsons o CSG. Dywedodd y Cyng. Leadbeater bod yr ysgolion wedi cytuno i gyfranogi yn yr orymdaith, ynghyd â Band Porth Tywyn. Byddai CSG yn darparu pabell fawr, llwyfan a system sain. Hefyd, buasai CSG yn cynnal yr holl asesiadau risg. Byddai Mr Parsons yn darparu amcangyfrifon o'r holl eitemau eraill y gellid eu darparu.

Cof 303 / Maw / 09 Adroddiad Gwerthuso Staff 2008-9
Trafododd y Cyngor yr adroddiad a baratowyd gan y Cyng. Hugh Towns.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod yr adroddiad a'i argymhellion yn cael eu derbyn.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy, yn dilyn gwerthusiadau llwyddiannus, bod ychwanegiadau'r staff yn cael eu talu o'r 1af o Ebrill 2009. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 304 /Maw /09 Unrhyw eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Trafododd y Cynghorwyr yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng. Richard Wallace, mewn perthynas â'i absenoldeb o gyfarfodydd oherwydd problemau gyda'i lygad yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd darllen.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyng. Wallace yn cael cynnig dau fis arall o absenoldeb gyda chaniatâd, yn y gobaith y byddai ei iechyd yn gwella ddigon iddo ddychwelyd i'w waith fel Cynghorydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.
Cafwyd cais gan y Cyng. Colin Jenkins i ddosbarthu rhai o Arweinlyfrau'r Dref i fusnesau lleol cyn gwyliau'r Pasg. Cytunwyd.
Byddai'r Maer, y Swyddog Technegol a'r Cyng. Colin Jenkins yn cwrdd â Mr Ken Murphy i drafod hongian y paentiadau a'r ffotograffau a storir gan y Cyngor yn Siambr y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40yh.